BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (CYFFORDD SALOP ROAD, Y TRALLWNG, POWYS) (CYFYNGIADAU A GWAHARDDIAD TRAFFIG DROS DRO 200-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na saith niwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y gefnffordd a'r gweithlu tra gosodir rhwystrau diogelwch ar Gefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wrth Gyffordd Salop Road yn y Trallwng yn Sir Powys.

Disgwylir y daw'r cyfyngiadau canlynol, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, i rym am 07:30 o'r gloch ar 9 Tachwedd 2009 ac y byddant yn parhau mewn grym fel a ddangosir gan arwyddion traffig hyd nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, sef yn ôl y disgwyl erbyn 20 Tachwedd 2009 neu nes bydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol.

Effaith y Gorchymyn, a fydd yn para am 18 mis ar y mwyaf, fydd;

i. gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar gyflymder uwch na 30 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn;

ii. gwahardd dros dro unrhyw gerbyd rhag goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn; a

iii. gwahardd dros dro unrhyw gerbyd sy'n mynd tua'r de rhag troi i'r dde o gerbytffordd y gefnffordd i'r A458 wrth Gyffordd Salop Road yn y Trallwng. Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau yr effeithir arnynt gan y gwaharddiad hwn fydd parhau tua'r de i'r gylchfan nesaf a dychwelyd naill ai tua'r gogledd ar y gefnffordd a throi i'r chwith wrth Gyffordd Salop Road neu ar hyd y B4381 i ganol tref y Trallwng.

M D BURNELL
Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3

YR ATODLEN

Y darn hwnnw o'r gefnffordd yn y Trallwng yn Sir Powys sy'n ymestyn o'r A483/B4381 Cylchfan Station Road i'r A483/A458 Cylchfan Buttington Cross yn y Trallwng yn Sir Powys.

GELLIR CAEL COPI PRINT BRAS O'R HYSBYSIAD HWN ODDI WRTH DRAFNIDIAETH AC ADFYWIO STRATEGOL, IS-ADRAN CYNLLUNIO A LLYWODRAETHU TRAFNIDIAETH 3, LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3NQ.

THE A483 TRUNK ROAD (SALOP ROAD JUNCTION, WELSHPOOL, POWYS) (TEMPORARY TRAFFIC RESTRICTIONS AND PROHIBITION) ORDER 200-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers, propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to ensure the safety of road users and workforce whilst a safety barrier is installed on the Swansea to Manchester Trunk Road (A483) (hereinafter referred to as "the trunk road") at the Salop Road Junction at Welshpool in the County of Powys.

It is expected that these restrictions, which will be signed accordingly, will come into operation at 07:30 hours on 9 November 2009 and will remain in force as indicated by traffic signs until the works are completed, expected to be by 20 November 2009 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order, which will have a maximum duration of 18 months, will be to:

i. temporarily prohibit vehicles from proceeding at a speed exceeding 30 miles per hour in that length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice;

ii. temporarily prohibit vehicles from overtaking in that length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice, and

iii. temporarily prohibit southbound vehicles from making a right hand turn from the southbound carriageway of the trunk road onto the A458 at Salop Road Junction at Welshpool. The alternative route for vehicles affected by this prohibition will be to continue southbound to the next roundabout and return either northbound on the trunk road to turn left at Salop Road Junction or via the B4381 to Welshpool town centre.

M D BURNELL
Transport Planning and Governance Division 3

SCHEDULE

That length of the trunk road at Welshpool in the County of Powys that extends from the A483/B4381 Station Road roundabout to the A483/A458 Buttington Cross roundabout at Welshpool in the county of Powys.

A COPY OF THIS NOTICE IN LARGER PRINT CAN BE OBTAINED FROM TRANSPORT AND STRATEGIC REGENERATION, TRANSPORT PLANNING AND GOVERNANCE DIVISION 3, WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3NQ.